*Cyfraniad y Cymry i Ddinas Lerpwl (1207-2007)**

Y Parchedig D. Ben Rees, BA, BD, MA, MSc (Econ), PhD, FRHistS

Y mae pawb yn hoffi dathlu pen-blwydd a dyna yw hanes Lerpwl eleni.[1] Dethlir 800 mlynedd o'i hoes yn dechrau fel pentref bychan ar lan afon Mersi, ac yn datblygu erbyn canol y ddeunawfed ganrif i fod yn dref a phorthladd prysur ac o 1880 yn ddinas gyda'i Hesgob ei hun. A thrwy'r cyfan bu'r Cymry yn rhan o'r stori. Yn wir gellir dweud fod gan y Cymry gymaint o hawl ar Lerpwl ag sydd gan unrhyw grŵp arall. Roedd Cymry o amgylch Lerpwl yn rhanbarthau Rheged (sy'n cyfateb i Cumbria a rhan helaeth o Sir Gaerhirfryn) ac Elfed (sy'n cyfateb heddiw i Swydd Efrog a rhan fawr o ogledd y Canoldir)[2] ymhell cyn i Lerpwl gael ei siarter yn 1207 fel y gwelwn yn ôl enwau lleol fel Penketh a Bryn, ger Wigan. Pum mlynedd ar ôl i'r Brenin Ioan roi ei siarter i Lerpwl, mae cyfeiriad ar gael at nifer o filwyr ac anifeiliaid (gwartheg a moch yn bennaf) a anfonwyd o drefi Caerhirfryn a Chaer heibio i Lerpwl ac oddi yno i Ddeganwy a Chonwy lle'r oedd byddin Lloegr mewn trybini ac yn ceisio cadw llygad barcud ar Llywelyn.

Erbyn y drydedd ganrif ar ddeg roedd y Cymry o borthladdoedd Conwy a Biwmares yn teithio yn eu cychod i borthladd Lerpwl i gyfnewid nwyddau ac i fasnachu.[3] Y Cymro Cymraeg cyntaf a gyfrannodd yn sylweddol i Lerpwl oedd Dafydd ap Gruffydd a anfonwyd gan y Brenin Harri VII i gadw golwg ar drigolion y ddinas ac yn bennaf i ofalu eu bod yn talu'r dreth. Talwyd iddo bedair punt ar ddeg o bunnau am y cyrfirfoldeb hwn ac am ei ffyddlondeb i'r Tuduriaid.

Gwnaed ef yn faer y fwrdeistref ar ddau achlysur, yn 1503 a 1515,[4] ac ar ei farwolaeth trosglwyddwyd y les i'w weddw, Alis Gruffydd, a'i fab-yng-nghyfraith Henry Ackers. Yn les Dafydd ap Gruffydd sillefir enw'r dref yn Lyrpwl sydd yn ddigon agos i'r modd yr ysgrifennir yr enw heddiw, sef Lerpwl.

Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg yr oedd Lerpwl yn dod yn atyniad i

---

* Mae'r erthygl hon wedi ei sylfaenu ar ddarlith a draddodwyd i Gymdeithas y Cymmrodorion a Chymdeithasau Cymraeg Llundain, yng Nghanolfan Cymry Llundain ar 11 Mehefin 2007 gyda Winston Roddick CF yn y gadair.

1 Bu dathlu ei phen-blwydd yn 1957 gan mai ar 23 Awst 1207 y rhoddodd y Brenin John ei siarter iddi. Eifionydd, 'Penblwydd y Ddinas', *Y Glannau*, Cylchgrawn Cymry Glannau Mersi, Ionawr, 1957, 1-2.

2 D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau yn yr Ugeinfed Ganrif, cyf. I* (Lerpwl a Llanddewi Brefi, 1997), 1.

3 Ibid.

4 Ibid.

Gymry a oedd am fod yn ffyddlon i Brotestaniaeth, ac yn arbennig Anghydffurfiaeth. Enghraifft dda o hyn oedd Philip James (1664-1748), gweinidog cynnar gyda'r Bedyddwyr. Un o Bontarddulais ydoedd yn wreiddiol a digiodd ei rieni wrtho am iddo droi at Ymneilltuaeth. Symudodd i'r Academi yn Warrington yn 1684 lle y daeth i gysylltiad â meddyg o Lerpwl, Dr Daniel Fabius. Cymerodd Philip James o dan ei adain ac yn 1685 yr oedd yn byw yn Everton.[5] Hyfforddwyd ef gan Dr Fabius i fod yn feddyg ac yn weinidog gyda'r Bedyddwyr. Roedd gan Dr Fabius gapel yn Everton ac fe bregethai Philip James yn y capel hwnnw, ond erbyn diwedd y ganrif symudodd y Cymro i weinidogaethu yn Warwick ac i Hemel Hempstead lle y bu farw yn 1748.

Erbyn y ddeunawfed ganrif yr oedd Lerpwl yn gyrchfan gwirioneddol i'r Cymry a gwelir enwau nifer ohonynt ym mhrif swyddi'r fwrdeistref. Gallwn gyfeirio yn benodol at John Hughes a fu'n faer yn 1727 ac Owen Pritchard yn 1744.[6] Roedd John Hughes yn gyfrifol am ddiwydiant y crochenydd ac yn ŵr o gryn ddylanwad oblegid fe gafodd 652 o bleidleisiau yn erbyn 628 gan ei wrthwynebydd, Thomas Bereton, gŵr cyhoeddus a oedd wedi ennill ei blwy ers blynyddoedd lawer. Un o Fôn oedd Owen Pritchard (c. 1685-1765) a bu'n garedig i un o feirdd pwysicaf y ddeunawfed ganrif, Goronwy Owen (1723-69) a ddaeth yn gurad Eglwys Santes Fair, Walton, yn Ebrill 1753. Daeth William Morris (1705-63) y llythyrwr a'r llysieuwr, yn was i Owen Pritchard. Yn wir yr oedd Owen Pritchard yn gefnder i'r teulu athrylithgar, y Morysiaid. Masnachwrŷd a gwerthwr cwrw a gwin ydoedd yn Lerpwl, a bu'n fawr ei ofal o'r Cymry a ddeuai gyda'r llongau o Fôn.

Yna yn 1756 bu Richard Hughes, John Street, yn faer y dref. Ef oedd perchennog y Copperas Works a thrwy hynny y galwyd y ffordd a'r bryn yn Copperas Hill.[7] Ond yna aeth cyfnod hir heibio cyn i'r Cymry ddechrau cyfrannu i'r bywyd gwleidyddol. Brodor o Sir Feirionnydd oedd un o'r cyntaf i wneud hynny, John Buck Lloyd, ac anrhydeddwyd ef am wasanaeth hir i Gyngor y Dref.[8] Yr oedd yn ymgorfforiad o'r Blaid Dorïaidd sef y blaid wleidyddol a fu fwyaf llwyddiannus yn Lerpwl am genedlaethau, yn fwy felly na mewn dinasoedd eraill cyffelyb.

Yr oedd y Cymry, at ei gilydd, yn Ymneilltuwyr yn eu crefydd ac yn Rhyddfrydwyr yn eu gwleidyddiaeth. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd y berthynas yn un glòs a chafwyd yn Lerpwl dau weinidog na fu eu gwell am ddeffro'r gydwybod wleidyddol ac i fraenaru'r tir i gynhaeaf radicaliaeth chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfeirio yr wyf at y Parchedig William Rees (Gwilym Hiraethog, 1802-83), a'r Parchedig John

---

[5] Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Llawysgrif 10523B, Evan Owen, 'Notes on the Old Liverpool Welsh', Dr Phillip James.

[6] D. Ben Rees, op. cit., 2.

[7] R. W. Jones (Diogenes), 'Cymry fu yn Liverpool yn y XIX Ganrif, a Chynt', *Transactions of the Liverpool Welsh National Society 1901-1902*, 58.

[8] Ibid., 58-9

Thomas (1821-92).[9] Daeth Gwilym Hiraethog i Lerpwl yn 1843 ac aros hyd 1875, a bu John Thomas yn y ddinas o 1875 hyd ei farwolaeth yn 1892. Y mae bedd y naill ym mynwent Toxteth a bedd y llall ym mynwent Anfield ac nid oes dim yn rhoddi mwy o brawf o'u teyrngarwch i'r ddinas na'u bod am orffwys yn naear y ddinas honno hyd ddydd yr Atgyfodiad.

Yr oedd y ddau yn wŷr amryddawn. Gelwais Gwilym Hiraethog yn fy llyfryn amdano yn bolymath a dyna'r union air i'w ddisgrifio. Bu ei gyfraniad ef i fywyd Lerpwl yn bwysig, fel awdur, newyddiadurwr, darlithydd, gwleidydd, a diwygiwr cymdeithasol, ac yr oedd yn gyfaill i Garibaldi a Mazzini. Bu cyfraniad John Thomas yntau hefyd yn sylweddol fel nofelydd, newyddiadurwr a golygydd, arloesydd dirwest, cyfaill W. E. Gladstone ac un a fu'n hybu David Lloyd George fel gwleidydd ifanc. Bu'r gweinidogion hyn yn fodd i wneud y Cymry yn arbennig yn ymwybodol o bynciau llosg y dydd a'r angen i ymgyrchu er mwyn gwella cymdeithas. Ond er mor bwerus yr oedd y ddau hyn ac eraill, denid nifer o'r Cymry i'r Blaid Dorïaidd.

Mab i labrwr o Gymro oedd John Hughes (1830-95) a thrwy ei allu, daeth yn gyfreithiwr ac yn aelod pybyr o'r Blaid Dorïaidd. Erbyn 1871 yr oedd ar Gyngor y Dref, ac ef oedd y Maer yn 1882-3. Erbyn hynny yr oedd mewn gwirionedd yn Arglwydd Faer gan i'r dref ddod yn ddinas yn 1880. Ef a lywyddai yn Neuadd y Dref pan ddaeth Arglwydd Faer Llundain (Syr J Whittaker Ellis) ar ymweliad â Lerpwl ym mis Tachwedd 1882. Bu John Hughes yn aelod amlwg hefyd o Bwyllgor Dŵr y Ddinas.[10]

Cymro arall o'r un anian a chefndir ac a fu'n Arglwydd Faer oedd Syr Thomas Hughes (1838-1923). Ei diriogaeth ef oedd Toxteth lle y gwelid rhai o gapeli pwysicaf y Cymry fel Eglwys hardd y Presbyteriaid Cymraeg yn Princes Road. Capel Princes Road, Lerpwl, oedd 'Fatican yr Hen Gorff' yn ôl D Tecwyn Lloyd ac ystyrid ardal Toxteth lle safai yn y boulevard fel 'un o fannau dethol y ddinas'. Roedd gan Syr Thomas Hughes gwmni llewyrchus fel masnachwr coed yn Warwick Street a Doc Brunswick. Etholwyd ef yn gynghorydd dros Ogledd Toxteth yn 1878 ac fe'i hanrhydeddwyd fel Arglwydd Faer yn 1896-7. Erbyn hyn yr oedd yn Henadur a bu'n Arweinydd y Cyngor yn 1889-9. Fodd bynnag, ymddiswyddodd yn 1900 am ei fod yn anghytuno'n ddybryd â phrif ddyn y Torïaid, Archibald Salvidge, a fynnai bob amser gael ei ffordd ei hun. Ond enillodd Syr Thomas Hughes edmygedd mawr lawer o'r trigolion am ei annibyniaeth barn ac am ei wasanaeth cydwybodol fel

---

[9] Am Gwilym Hiraethog, gweler D. Ben Rees, *Y Polymath: Y Parchedig William Rees, Gwilym Hiraethog 1802-1883* (Lerpwl, 2002), 1-32; am John Thomas, gweler R. T. Jones, *Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 1872-1972* (Abertawe, 1975), 17-21, 28, 34-50, 52-65, 67-8, 71-2, 77, 80, 83, 86, 87-9, 90, 93-97, 100-3, 110, 113-14, 121, 147, 180, 183, 190-4, 199, 245, 292-3, 386-7, 404, 413.

[10] P. J. Waller, *Democracy and Sectarianism: A Political and Social History of Liverpool 1868-1939* (Liverpool, 1981), 65, 106, 111-13, 118, 495.

Cadeirydd y Watch Committee a Phwyllgor Trwyddedau. Ef yw'r unig Gymro i gael yr anrhydedd o gael 'Rhyddid y Ddinas'.[11]

Roedd Cymry'r capeli yn ei gyfrif yn arwr ar fater rheoli trwyddedau'r tafarnau. Barn y Cymro llengar W. H. Parry, mewn llyfryn a gyhoeddwyd ganddo yn 1870, oedd mai 'Lerpwl yn ôl ei phoblogaeth yw'r dref feddwol fwyaf yn y Deyrnas Gyfunol os nad yn yr holl fyd'. Roedd dwy fil a phum cant o dafarndai yn Lerpwl adeg etholiad 1868. Dywedodd W. H. Parry ymhellach: 'Nis gellir cerdded yr un heol o'r bron na chyfarfyddir â'r tai anfad hyn ar bob congl iddi, ac ysywaeth, dyma le y treulia aml i Gymro lawer o'i enillion a'i amser gwerthfawr.'[12]

Cedwid y tafarndai ar agor o 6 y bore (llawer ohonynt o 4 o'r gloch) hyd 12 o'r gloch y nos, ond trwy arweiniad gwleidyddion o Gymry fel Syr Alfred Thomas Davies (1861-1949) a gweinidogion o bob enwad a oedd ar flaen y gad yn y Mudiad Dirwest lleihawyd ychydig ar rym y fasnach feddwl. Arbenigodd Syr Alfred Thomas Davies, gŵr a anwyd yn Lerpwl, yng nghyfraith trwyddedu rhwng 1883 a 1907 a bu iddo ran allweddol felly yn y Mudiad Dirwest, un o ugeiniau lawer o Gymry'r ddinas. Cymro arall o Dori a fu'n llywyddu Cyngor Lerpwl oedd y Cynghorydd Joseph Morgan. Roedd ei dad Edward Morgan yn gwerthu glo, yn ŵr adnabyddus yn Lerpwl ac yn Gymro twymgalon.

Yn hanes y Blaid Ryddfrydol ceir oriel hynod o ddiddorol o gynghorwyr, o ddyddiau'r Henadur J Griffith, Monwysyn, a thad William J Griffith a ffurfiodd Gatrawd y Gwirfoddolwyr Cymreig yn Lerpwl o'r 23rd Royal Welsh Volunteers, ac a fu am flynyddoedd yn flaenllaw gyda'r fyddin fel swyddog i'n dyddiau ni. Un arall o Fôn, o Lanfachreth oedd William Williams (1813-86), adeiladydd o ran galwedigaeth. Etholwyd ef fel Rhyddfrydwr dros Ward Ffordd Scotland yn 1863, a bu'n cyflawni ei ddyletswyddau hyd nes i'r Gwyddelod flino arno a chael gwared ohono yn etholiad 1875. Ond nid un i ildio yn hawdd oedd William Williams, ac yn 1877 fe'i hetholwyd dros Ward St Paul's. Penderfynodd beidio sefyll yn 1880 ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth cydwybodol. Cyflwynodd bulpud hardd yn 1865 i gapel Cymraeg y Presbyteriaid yn Fitzclarence Street gyda'r geiriau hyn arno: 'Cyflwynedig gan William Williams, Cynghorydd y Ddinas, fel rhodd i'r Arglwydd ac i addurno ei le sanctaidd.' Yr oedd William Williams yn Gymro brwdfrydig, haelionus ac yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Adeiladau Clarence.[13]

Cynghorydd arall o'r un gogwydd oedd Joseph Harrison Jones, mab ac ŵyr i flaenoriaid a wasanaethai capel y Methodistiaid Calfinaidd yn Bedford Street. Etholwyd ef yn flaenor yng nghapel Princes Road yn 1877 ond bu'n feirniadol iawn o'i weinidog, Parchedig Dr John Williams, ynglŷn ag ymweliad Evan Roberts â Lerpwl ym mis Ebrill 1905.[14] Bu am gyfnod hir yn arwain ym mywyd

---

[11] Ibid., 66, 82-3, 113, 142, 160-1, 178-9, 187-8, 221, 273, 495-6. Gweler hefyd D. Ben Rees, *Local and Parliamentary Politics in Liverpool from 1800 to 1911* (Lewiston, 1999), 82, 103, 140; *Liverpool and Merseyside Official Red Book for 1938* (Liverpool, 1938), 65.

[12] W. H. Parry, *Y Cymry, eu Rhinweddau a'u Gwendidau* (Lerpwl, 1870), 10.

[13] J. R. Jones, *The Welsh Builder on Merseyside* (Liverpool, 1946), 150-1.

[14] Am bennod bwysig ar gyfnod Dr John Williams yn Lerpwl, gw. R. R. Hughes, *Y Parchedig John Williams, DD, Brynsiencyn* (Caernarfon, 1929), 145-64.

dinesig Lerpwl, fel Cynghorydd, Henadur, ac Ynad Heddwch. Roedd yn ddirwestwr, yn fawr ei gyfraniad i addysg, a galwyd ysgol ar ei ôl, er i honno bellach gael ei dymchwel. Bu farw 21 Tachwedd 1924 a gadawodd yn ei ewyllys ddwy gymynrodd i gymuned y Presbyteriaid Cymraeg yn Princes Road: £1,500 a'r llog i'w ddefnyddio at y Weinidogaeth a £1,000 i'w ddefnyddio yngln â'r Achos.

Cymro o ran iaith a fu'n Arglwydd Faer Lerpwl oedd yr Henadur W. H. Williams yn 1909-10. Bu eraill hefyd o'r Cymry yn Gynghorwyr ac yn amlwg ym myd gwleidyddiaeth y Blaid Ryddfrydol. Gellir enwi'r Henadur William Evans, Brunswick Street, a Henry Jones, dau a fu'n weithgar i groesawu Evan Roberts i Lerpwl yn 1905. Yna Aled Owen Roberts (1889-1945) a anwyd yn Lerpwl, ac a fu'n amlwg ym myd yswiriant Eglwys Bresbyteraidd Cymru.[15] Bu'n ymgeisydd dros y Blaid Ryddfrydol yn Nwyrain Toxteth yn 1929, enillodd sedd Wrecsam yn 1931 ond ei cholli wedyn i Robert Richard yn 1935. Etholwyd ef yn Gynghorydd yn 1936 ac ymladdodd sedd Kirkdale yn 1945. Meddyliwn hefyd am John Richard Jones (1881-1956), gŵr a gredai yn gryf y dylai aelodau'r eglwysi Cymraeg ymdaflu i wasanaeth dinesig. Bu'n aelod o Gyngor Dinas Lerpwl o 1936 i 1937 ac o 1942 i 1945. Gweithiodd yn egnïol gyda'r Blaid Ryddfrydol a bu'n Llywydd y Blaid Ryddfrydol yn etholaeth Wavertree.[16]

Yn 1980 etholwyd Anne a Joe Clitherow, Kensington, fel Cynghorwyr dros Ward Smithdown. Rhoddodd Anne Clitherow wasanaeth gwerthfawr fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a bu ei phriod, nai i Richard Clitherow, AS, Edge Hill, yn brysur ar aml i bwyllgor yn ymwneud â thrafnidiaeth.[17]

Yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd y gwleidydd Cymraeg mwyaf adnabyddus yn Lerpwl oedd yr Henadur David John Lewis (1893-1982).[18] Pensaer ydoedd o ran galwedigaeth a chynlluniodd aml i adeilad yn Lerpwl, sinemâu yn arbennig, gan gynnwys yr adeilad a elwid y Rialto yn Parliament Street, a ddinistriwyd yn ulw yn ddiweddarach yn nherfysg Toxteth yn 1981. Gwelir ei waith ar hyd a lled Lloegr a'r cyfandir ac yn arbennig ym Mharis. Bu'n Gynghorydd ac yn Henadur am yn agos i ddeugain mlynedd a safodd yn enw'r Blaid Geidwadol yn etholaeth Kirkdale gan wneud yn dda iawn yn etholiad 1950. Gwnaed ef yn Arglwydd Faer Lerpwl yn 1962-3 a chafodd ef a'i briod flwyddyn dda. Roedd yn enedigol o Aberystwyth, hoffai gerddoriaeth a bu'n Llywydd Côr y Philharmonig a Chymdeithas Gorawl Cymry Lerpwl.[19] Bu farw 6 Mai 1982 yn Lerpwl a daearwyd ei weddillion ym medd y teulu ym mynwent gyhoeddus Aberystwyth, o dan fy ngofal, ar bnawn Mawrth 1

---

[15] P. J. Waller, op. cit., 508.

[16] D. Ben Rees, *Cymry Adnabyddus 1952-1972* (Lerpwl a Phontypridd, 1978), 121-2.

[17] Adnabyddiaeth bersonol, aelodau yng nghapel Presbyteriaid Cymraeg Bethel, Heathfield Road, Lerpwl, er 1976, cyn hynny Capel Cymraeg Edge Lane.

[18] J. E. Jones, 'Teyrnged i Un o Arweinwyr y Ddinas, Yr Henadur David John Lewis (1893-1982)', *Yr Angor* 4.2 (1982), 1.

[19] Ibid.

Mehefin, o fewn ychydig lathenni i fedd y bardd Gwenallt, y ddau wedi bod yn aelodau am flynyddoedd yng nghapel y Tabernacl.

Mae'n syndod meddwl nad anfonodd Lerpwl ond un Cymro i'r Tŷ Cyffredin yn ystod tair canrif o amser. Richard Pennant (1737-1805) oedd y Cymro hwnnw, un o deulu enwog y Pennantiaid, ac o'r un teulu y daeth y teithiwr a'r naturiaethwr Thomas Pennant (1726-98) sef hen deulu hynod o ddiddorol o Sir y Fflint a thiroedd Bychtwn a Downing yn eiddo iddynt.[20] Ymsefydlodd ei dad, John Pennant, fel marsiandwr yn Lerpwl a sylfaenwyd ei gyfoeth ar arian India'r Gorllewin trwy gaethwasiaeth a siwgr. Priododd Bonella Hodges yn 1734 a chyfunwyd trwy hynny ddwy stad yn arbenigo ar gynhyrchu siwgr ar ynys Jamaica ac ail fab y pâr hwn oedd Richard Pennant. Llwyddodd John Pennant i ennill cyfoeth a thrwyddo ef y daeth stad y Penrhyn, ger Llandegai, i feddiant y teulu.

Ar farwolaeth Syr Ellis Cunliffe, aelod dros Lerpwl yn 1767, ymgeisiodd Richard Pennant am y sedd, ac enillodd hi yn ddiwrthwynebiad gan fod ganddo gysylltiadau gwych ei dad fel masnachwr ac yna ei wraig a oedd yn wyres i Dr Edward Norris, o deulu enwog Speke Hall ac a fu'n Aelod Seneddol o 1714 i 1722. Cadwodd sedd Lerpwl am rai blynyddoedd, gan iddo gael ei ailethol yn 1768 a 1774, ond yna collodd y dydd yn 1780. Yn 1784 safodd Pennant, ac yntau bellach yn Arglwydd Penrhyn, unwaith yn rhagor, y tro hwn yn un o bedwar ymgeisydd. Llwyddodd i gael ei ethol yn un o ddau gynrychiolydd i'r Senedd. Cymerodd y pleidleisio chwe diwrnod er bod llai na dwy fil o bleidleiswyr. Ond yn 1790, er syndod i bawb, collodd y sedd am yr eildro er iddo wario'r swm aruthrol o £30,000 ar yr ymgyrch.

Rhyddfrydwr a fagwyd yn Lerpwl oedd John Roberts, Aelod Seneddol Bwrdeistrefi Fflint o 1878 i 1892 ac un o awduron Deddf Cau'r Tafarnau ar y Sul yng Nghymru a ddaeth i fodolaeth yn 1881. Nid oes rhyw lawer o sôn amdano yn unman ond yn hanes dinas Lerpwl bu ef a'i dad, David Roberts, a gweddill y teulu yn farsiandwyr pwysig ym myd coed gyda'u canolfan yn Toxteth. Yr oeddynt yn gwbl gefnogol i'r achos crefyddol yn Princes Road a hefyd i'r Blaid Ryddfrydol.[21]

Cafwyd Cymry eraill yn ymgeisio am etholaethau yn Lerpwl. Un a gredai fod ganddo obaith oedd y bargyfreithwyr o Frynsiencyn, Ellis Jones Griffith (1860-1926) ac ymladdodd ef Ddwyrain Toxteth yn 1892 yn erbyn y cyfalafwr haerllug, R P Houston (1853-1926), gŵr a greodd aml i storm ar gynfas Lerpwl.[22] Cyfrifai Ellis Jones Griffith a'r Rhyddfrydwyr fod ganddo obaith da. Byddai'n annerch aml i gyfarfod gwleidyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn Nwyrain Toxteth ac un o'i faterion pwysicaf oedd Datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, pwnc a oedd yn berthnasol iawn i ddeiliaid capeli Cymraeg a oedd wedi symud o gefn gwlad Cymru i Toxteth. Wedi'r cyfan yn

[20] R. W. Jones, op. cit., 57-8.

[21] J. R. Jones, op. cit., 109-11.

[22] D. Ben Rees, *Local and Parliamentary Politics in Liverpool from 1800 to 1911* (Lewiston, 1999), 82-3.

1892 yr oedd dros fil o'r etholwyr yn Gymry Cymraeg.[23] Fodd bynnag, ni lwyddodd i gario'r dydd.

Cyfrannodd Emrys Owen Roberts (1910-90) hefyd yn helaeth fel bargyfreithiwr, galwedigaeth arall lle y bu'r Cymry yn fawr eu cyfraniad, a daeth tri ohonynt, Caradog Rees, Ifor Morris-Jones a John Edward Jones yn Farnwyr. Daeth Caradog Rees yn Aelod Seneddol yng Nghymru a chafodd J E Jones fwy nag un gwahoddiad i ystyried y llwybr hwnnw. Fe ddaeth cyfle i Emrys O. Roberts pan gafodd ei ethol fel Aelod Seneddol Sir Feirionnydd o 1944 i 1951.[24] Felly hefyd W. R. Williams, a fu'n amlwg gydag Undeb Gweithwyr y Llythyrdy yn Lerpwl, cyn cael ei ethol yn Aelod Seneddol Llafur Heston ac Isleworth Swydd Middlesex yn 1945. Yn 1938 etholwyd ef yn flaenor yng nghapel Presbyteriaid Cymraeg Newsham Park pan oedd yn byw yn West Derby a bu am flynyddoedd yn flaenor y gân yn y capel hwnnw.[25] Un arall a drigai ar gyrion Lerpwl oedd William Geraint Oliver Morgan (1921-95). Bu ef yn ymgeisydd dros y Blaid Geidwadol ym Meirionnydd yn 1951, yn Huyton yn 1955, ac yna llwyddo i gael ei ethol yn Aelod Seneddol Dinbych o 1959 i 1983. Roedd yn Gymro twymgalon, ac yn aelod o'r Orsedd, ond cafodd ei ddadrithio yn ei blaid. Dywedodd yn 1984: 'I wasted the prime years of my life in the service of the Conservative Party.'[26]

Nid yw cyfraniad y Cymry yn ddibwys o bell ffordd yn hanes gwleidyddiaeth y ddinas. Cymro o'r enw John Edwards oedd un o arloeswyr mawr y Blair Lafur Annibynnol a Chymdeithas y Ffabiaid yn Lerpwl a chafwyd cefnogaeth i Sosialaeth gan ddarlithwyr yn y Brifysgol, rhai fel D. Caradog Jones ac R. Merfyn Jones, ac ymhlith y gweinidogion, megis J. H. Howard, gweinidog Presbyteriaid Catharine Street, a J. D. Williams Richards, gweinidog yr Annibynwyr Cymraeg. Rhaid cyfaddef, serch hyny, nad yw'r cyfraniad i'w gymharu â chymunedau eraill fel yr Iddewon a'r Gwyddelod a hyd yn oed yr Albanwyr. Bu gan y Gwyddelod a'r Albanwyr a'r Cymry gefnogaeth yn eu cymunedau i genedlaetholdeb, a bu'r Cymry a'r Albanwyr yn cyfarfod yng ngwesty'r Adelphi i drafod eu cynlluniau.

Un o gyfraniadau pwysicaf y Cymry i fywyd y ddinas o 1930 i 1960 oedd adeiladu tai wrth y miloedd. Ceir llawer o ramant yn y cyfnod hwnnw, y crefftwyr tlawd, medrus a mentrus, yn dod ymlaen yn y byd wrth godi tai, a therfynu eu hoes gyda thai mawr yn Lerpwl a thai mwy yng Nghymru ac yn ddiogel yn y sêt fawr. Ni allwn feddwl am eglwys niferus Stanley Road, Bootle, heb sôn am Daniel P. Davies, gŵr o Lanrwst a phrif aelod cwmni Davies a Williams, a'r Henadur William Jones a'i fab Owen Kendrick Jones[27] a fu'n gyfrifol am osod cynifer o enwau a chysylltiadau Cymreig ar strydoedd Bootle, er enghraifft Bala Street, Flint Street, Rhyl Street ac yn y blaen. Yng nghyswllt

[23] Ibid.

[24] I. T. Rees, *Welsh Hustings: 1885-2004* (Llandybie, 2005), 254.

[25] *Ystadegau C. M. Lerpwl 1922-1946 am y flwyddyn 1938* (Liverpool, 1939), 7.

[26] I. T. Rees, op. cit., 211.

[27] J. R. Jones, op. cit., 80-2.

eglwys Fitzclarence Street rhaid enwi teulu'r Evansiaid, ac yn arbennig Robert (Bob) Evans, Croxteth Road, adeiladydd cryn nifer o strydoedd yn y Dingle ac Aigburth.[28] Yn Eglwys Netherfield Road yr oedd Owen Elias a elwid yn 'Brenin Everton' am iddo adeiladu cynifer o dai ar gefnen Everton rhwng Great Homer Street a Heyworth Street.[29] Yr oedd Eglwys Webster Road a Heathfield Road (ger Penny Lane) yn enghraifft dda o ddylanwad yr adeiladwyr ym mywyd y gymdeithas. Yn ei lyfr gwerthfawr, *The Welsh Builders on Merseyside*, y mae J. R. Jones yn rhestru bron i bedwar cant o Gymry a fu yn y busnes adeiladu ar y Glannau rhwng hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg a thridegau'r ugeinfed ganrif. Y mae 83 ohonynt yn meddu ar y syrnam Jones, ac y mae'r rhain yn cynnwys dau ŵr a fu'n gyfrifol am lawer iawn o'r adeiladu. John Jones yw enw un a J. W. Jones yw enw'r llall, a heb y ddau hyn ni fyddai capel hardd Heathfield Road wedi cael ei adeiladu yn 1927.

Ganwyd John Jones, a adwaenid gan lawer un yn Jones Drinkwater a chan eraill yn John Jones Mayfield, yn 1853 yn Garreg Lefn, yr hynaf o naw o blant, ac o'i ben a'i bastwn ei hun mentrodd i Lerpwl i wneud arian. Wedi cyrraedd Lerpwl cyflogwyd ef gan John Jones, adeiladydd o Fodffordd, ac wedi hynny gan David Hughes, mab Tŷ Capel Cemaes, ac un o arloeswyr y diwydiant adeiladu yn Lerpwl a chymwynaswr mawr Môn. Manteisiodd John Jones ar hyn i gyd, y gefnogaeth, y cyfle i feistroli'r Saesneg yn y dosbarth nos, ac yna dechreuodd adeiladu ar ei liwt ei hun, ac erbyn 1900 yr oedd yn un o adeiladwyr blaenaf Lerpwl. Hyd heddiw gwelir cannoedd o'r tai a adeiladwyd ganddo yng nghymdogaeth Sefton Park, Princes Park, Allerton, Smithdown Road a Penny Lane.

Un arall a fu'n cydweithio gyda John Jones oedd John Hughes, Moneivion, a datblygodd yntau yn adeiladydd ar raddfa eang.[30] Felly hefyd J. W. Jones, Hiraethog, Garth Drive, adeiladydd mentrus a gododd lawer o dai yn ardal Parc Sefton, Allerton, Childwall, Wavertree, Woolton a Hunts Cross.[31] Dilynodd pedwar o'i feibion yn y busnes ac yn 1960 cafodd tŷ a gynlluniwyd gan y pensaer Dewi Prys-Thomas ei godi gan gwmni'r teulu yn Woolton gan ennill un o brif wobrau'r flwyddyn. Gan y genhedlaeth yma o adeiladwyr datblygwyd y 'Welsh House', fel y'i gelwid. Y patrwm oedd parlwr, cegin, scyleri, a thair llofft, ond pan ddechreuodd y Saeson efelychu'r cynllun aeth y Cymry gam ymhellach ac ychwanegu ystafell ymolchi. Sefydlodd rhai o'r adeiladwyr fel William Jones, Orrell, a adwaenid fel Klondyke Jones, adeilad i grasu eu brics eu hunain, ond at ei gilydd y 'Ruabon Rustic' a ddefnyddid gan amlaf. Gwyddom am fodolaeth saith o gymdeithasau adeiladu a ffurfiwyd gan yr adeiladwyr Cymreig. Bu gan y rhain ran flaenllaw yn ffurfio banc y North and South Wales Bank yn Castle Street ac adwaenid llawer ohonynt yn Lerpwl yn ôl eu llysenwau Klondyke Jones, Porky Williams, Hughes y Cae a Jones

[28] Ibid., 37-8.
[29] Ibid., 64-6.
[30] Ibid., 48-50.
[31] Ibid., 68-72.

Drinkwater. Yn ôl traddodiad fe hawliai'r briclars beint o gwrw wedi iddynt gwblhau gwaith brics ar y tŷ cyntaf mewn stryd a gwnaent hynny drwy wthio fflag o'r corn simdde. Ymateb John Jones Mayfield i'r cais fyddai 'Go and drink water', ateb eithaf rhesymol i ddirwestwr a blaenor Presbyteraidd. Fel y canodd Huwco Penmaen am Robert Davies (Dewi Clwyd 1812-75), adeiladydd yn ardal Tudebrook ac yn ddiweddarach Penbedw, ac aelod yng nghapel yr Annibynwyr, Tabernacl, Crosshall Street:

> A Robert Davies y saer maen
> Nid dyn cyffredin ydoedd;
> Dysgedig oedd ym mhethau'r byd
> A doeth ym mhethau'r nefoedd.[32]

Cyfraniad pwysig arall a wnaeth y Cymry oedd ym myd addysg. O'r cychwyn cyntaf bu'r Cymry yn diwyllio'u hunain gan sefydlu ysgolion yn y capeli yn nyddiau'r wythnos a chynnal Ysgolion Sul. Un o'r ysgolion cynharaf oedd honno a sefydlwyd gan yr Eglwys Anglicanaidd yn Russell Street, ysgol lle bu merch ddeallus iawn, Anne Jemima Clough (1820-92), yn athrawes ar y plant.[33] Roedd hi'n byw ar eu cyfer, ac yn helpu ei thad, James Butler Clough (1784-1844), marsiandwr cotwm yn Lerpwl ac un o brif gynheiliaid yr Eglwys Gymraeg. Nid oedd ei brawd Arthur Hugh Clough (1819-61) mor frwdfrydig ynghylch addysg â hi, ond daeth ef yn fardd y bu cryn drafod ar ei waith ym myd llenyddiaeth Saesneg. Sefydlwyd ysgolion dyddiol yng nghapeli Pall Mall a Bedford Street ar anogaeth Thomas Charles o'r Bala a'r emynydd Peter Jones (Pedr Fardd) oedd yn athro yn ysgol Pall Mall a pharhaodd i ddysgu'r plant am dair blynedd ar hugain hyd at 1830. Y flwyddyn honno, 1830, bu farw ei briod a newidiodd ei alwedigaeth gan fynd yn siopwr.[34] Serch hynny ni laesodd ddwylo ac fe barhaodd ei gefnogaeth i Sasiwn y Plant ar Sul y Pasg gan lunio emyn newydd bob blwyddyn. Yr oedd Ysgol Sul Pall Mall yn llewyrchus iawn pan oedd Pedr Fardd wrth y llyw; yn 1819 yr oedd 238 o blant, 150 o oedolion a 44 o athrawon yn perthyn iddi.[35]

Bu'r Cymry yn flaenllaw yn sefydlu'r ysgolion hyn ar gyfer y plant a daeth ysgol arall i fodolaeth yn Price Edwin Street yn 1844 gan barhau i weithredu hyd nes i'r wladwriaeth ddod ag addysg yn rheidrwydd o 1870 ymlaen. Y drefn o hynny ymlaen oedd Saesneg fel cyfrwng yr addysgu a Chymraeg yn yr Ysgolion Sul. Ond hyd yn oed o'r dechrau yr oedd hi'n anodd cael y plant i feistroli'r Gymraeg. Ceir darlun o'r frwydr yn nofel Eleazar Roberts, a gyhoeddwyd yn 1893 o dan y teitl *Owen Rees: A Story of Welsh Life and Thought*. Dyma baragraff i danlinellu'r drafferth:

---

[32] Ibid., 27.

[33] R. W. Jones, op. cit., 60.

[34] E. W. James, 'Pedr Fardd yn y Glorian', *Y Casglwr* 26 (1985), 18-19.

[35] Ibid. Gweler hefyd D. T. Lloyd, 'Rhai o Wreiddiau Prydeindod', *Barn* 70 (1970), 268.

> But sir, we know that there are children attending our Sunday Schools and places of worship who do not understand the language (sef Cymraeg). Whose fault it is, or whether it is anybody's fault, I am not going to determine, but the fact is as I state. Now all I have contended for is, that we must meet the state of things. We must teach these children the verities of the Gospel in the language they best understand. If they do not understand our glorious old Welsh language, then we must address them in English.

Ateb syml un o'r genhedlaeth a oedd yn arwain oedd hyn:

> We have young men amongst us, young men brought up in Liverpool, who though they can speak Welsh as well as I can... yet will persist in speaking English to the children. I suppose they think it is more respectable. I fear that they are getting ashamed of their mother-tongue, the language of Wales, gwlad y breintiau mawr.[36]

Gwelir felly y gofid ymhlith yr arweinwyr ac er i'r Cymry lwyddo am genedlaethau i sicrhau addysg ar gyfer eu plant, unwaith y daeth y ddarpariaeth honno'n sefydlog, cawsant eu denu gan yr addysg a ddarperid gan lywodraeth gwlad. Bu'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn ffodus i gael athrawon dawnus iawn dros y blynyddoedd, a gellir nodi un neu ddau o blith y rheiny. Bwriodd y Dr Tom Richards, Bangor, y llyfrgellydd a'r hanesydd, ei brentisiaeth ym mywyd Cymraeg y Glannau tra oedd yn athro yn yr Ysgol Ganol i fechgyn yn Bootle. Cydsyniodd Corfforaeth Bootle yn 1909 i gynnwys darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y trethi a phenodwyd Tom Richards i gyflawni'r gwaith o ddysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau nos. A phan symudodd i Faesteg yn 1911 awgrymodd un o'r beirdd lleol, Robert Parry (Madryn), fod mwy o angen yr athro ym Maesteg nag ymhlith Cymry Lerpwl a'r cyffiniau.

> Tra hyn o waith tro annheg – yw cwyno
> Caned pawb delyneg,
> Er adfywio'r Brythoneg
> Mae eisiau Tom ym Maesteg.[37]

Ychydig flynyddoedd y bu Tom Richards yn y ddinas ond arhosodd ugeiniau o athrawon eraill yno ar hyd eu hoes. Bu cyfraniad y Cymry hyn yn enfawr yn arbennig fel Dirprwy Brifathrawon a Phrifathrawon. Gosododd Owen Owen a'i olynydd, y llenor Gwilym Meredydd Jones, Ysgol Gynradd

[36] Ibid.

[37] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau yn yr Ugeinfed Ganrif, cyf. 2* (Lerpwl, 2001), 29.

Northway ar y map. Un o Rostryfan oedd Owen Owen a Gwilym M. Jones o Glanrafon, ac yr oedd y ddau yn bobl ddawnus a gweithgar, ac yn huawdl yn y ddwy iaith.[38] Hawdd fyddai enwi hanner cant o rai tebyg iddynt yn eu cyfnod hwy rhwng 1935 a 1980.

Gwnaeth y Cymry gyfraniad helaeth ym myd Addysg Uwch yn Lerpwl hefyd, yn y Colegau a'r Brifysgol, ac am gyfnod bu Adran Gelteg Prifysgol Lerpwl yn denu myfyrwyr o Gymru i ddilyn cyrsiau gradd ac i ymgymryd â gwaith ymchwil. Rhaid cofio mai cynnyrch Prifysgol Lerpwl oedd un o Gymry mwyaf enigmatig yr ugeinfed ganrif, John Saunders Lewis. O'r ysgol breifat yn Wallasey aeth Lewis i Brifysgol Lerpwl yn Hydref 1911, gyda chymhorthdal gan Gyngor Bwrdeistref Wallasey i astudio Saesneg (ynghyd â pheth Ffrangeg) dan Oliver Elton, a Lascelles Abercrombie wedi hynny o 1919 ymlaen, gan iddo dreulio blynyddoedd 1914-18 fel milwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf gyda 3ydd Bataliwn y King's Liverpool Regiment (fel y 'Liverpool Pals' y'i hadwaenid). Ar ar ôl y rhyfel fe wnaeth Saunders Lewis ei ymchwil ar gyfer gradd MA ym Mhrifysgol Lerpwl, a'i gyfarwyddwr oedd J. Glyn Davies, pennaeth yr Adran Geltaidd. Yr oedd pethau'n argoeli'n dda, gyda Glyn Davies yn blentyn yng nghapel taid SL, sef Dr Owen Thomas, Princes Road a'r ddau deulu yn gyfarwydd â'i gilydd.

Roedd J. Glyn Davies wedi dod i Brifysgol Lerpwl yn 1907 ond bu'r berthynas rhyngddo ef a Lewis yn 'ffyrnig ffraellyd'. Ond perthynai Saunders Lewis i genhedlaeth wych o fyfyrwyr Cymraeg Glannau Mersi fel Jennie Thomas, awdur *Llyfr Mawr y Plant*, G. Peredur Jones, mab J. Aitsh Jones, golygydd *Y Brython*, a Richard Alan Morton o Garston a apwyntiwyd yn 1924 i Adran Gemeg y Brifysgol ac yna yn 1944 yn Athro Biocemeg gan lanw'r gadair honno ag anrhydedd am ddwy flynedd ar hugain.[39] Perswadiodd Morton y Brifysgol i adeiladu cartref newydd sbon ar gyfer ei Adran, ac anfarwolwyd ei ofal bugeiliol am y myfyrwyr trwy godi ar safle Carnatic ym Mossley Hill hostel newydd a agorwyd yn 1971 a'i alw'n Morton House. Cyfoeswr ag ef fel Athro oedd David Richard Seaborne Davies. Penodwyd ef yn Athro'r Gyfraith ym Mhrifysgol Lerpwl yn 1946 ac yn Ddeon y Gyfadran a daeth yn un o ffigyrau amlycaf y Brifysgol gan iddo am flynyddoedd gael y gwaith o gyflwyno'r myfyrwyr a'r mawrion yn Seremonïau'r Graddau. Roedd galw mawr amdano fel siaradwr a bu'n Ynad Heddwch (maes y bu'r Cymry yn Lerpwl yn amlwg iawn ynddo) o 1946 hyd ei ymddeoliad yn 1971.[40] Dylid nodi hefyd gyfraniad H. Humphreys Jones a'i ysgol hyfforddi fferyllwyr.

Maes arall y mae'n rhaid cyfeirio ato ydyw'r gofal am yr afradloniaid, y tlawd a'r anghenus. Bu consyrn mawr am y Cymry a oedd yn byw yn Lerpwl

---

[38] Adnabyddiaeth bersonol, gweler ibid., 146-7. Am ei gefndir yn Lerpwl, gw D. Ben Rees, 'Gwreiddiau J. Saunders Lewis ar Lannau Mersi', yn D. Ben Rees (gol.), *Ffydd a Gwreiddiau John Saunders Lewis* (Lerpwl, 2003), 13-41.

[39] D. Ben Rees, 'Coffáu Dr Richard Alan Morton', yn *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. 2*, op. cit., 119-21.

[40] Ibid., 146.

yn ogystal â phobl nad oedd yn Gymry, a sefydlwyd llu o ganolfannau a gorsafoedd cenhadol ar eu cyfer. Ceir digon o dystiolaeth i ofal eglwysi fel Chatham Street, Anfield Road, Stanley Road a Princes Road am y tlodion Cymraeg heb anghofio cyfraniad Cymry o fewn y *Liverpool City Mission.* Dywedwyd unwaith mewn cyfarfod crefyddol fod 'llawer yn mynd o cellar i cellar, ac attic i attic i weddïo gyda'r bobl'. Yr oedd y gweinidogion yn flaenllaw yn hyn o beth a hefyd llawer o'r arweinwyr lleyg.[41]

Enghraifft o'r ysbryd hwn oedd y mudiad yn 1872 i agor cartref i Gymraësau yn 127 Duke Street dan ofal Miss Anne Ellis a sefydlu'r Gymdeithas Drefol Gymreig yn 1870.[42] Yr oedd cenhadon yn llafurio yng nghymdogaeth Pall Mall a Cranmer Street a hefyd yng nghymdogaeth Toxteth Park. Agorwyd ystafell yn 246 Beaufort Street a phenodwyd John Owen yn genhadwr. Un bychan o gorff oedd ef ond 'cenhadwr i flaenau'i fysedd'. Fe'i dilynwyd yn 1877 gan R. Ceinwenydd Owen a symudwyd yr ystafell genhadol o Beaufort Street i Yates Street. Parhaodd y dystiolaeth hon hyd y pumdegau, a'r ferch sy'n haeddu sylw yn sgil ei gwaith yw'r chwaer Kate Evans, Edge Lake. Un o Nant Peris ger Llanberis ydoedd yn wreiddiol a daeth yn genhades i Lerpwl yn Hydref 1912.[43] Dyma oedd ei thaflen amser: dydd Llun – yn Neuadd Genhadol Smith Street a berthynai i gapel Anfield Road. Treuliai'r bore a'r pnawn yn ymweld â'r cartrefi. Nos Fawrth yn Neuadd Warwick Street a berthynai i Gapel Princes Road lle bu'r heddychwr George M. Ll. Davies yn arolygwr Ysgol Sul yn ei ieuenctid. Nos Fercher – rhywle arall, yn ôl y galw, fel Bankhall Mission neu Arnot Street a berthynai i gapel Walton Park. Pnawn Iau – paratoi ar gyfer Seiat yn ei chapel ei hun, sef Edge Lane. Gwener – tramwyo strydoedd cefn y ddinas yn chwilio am ferched o Gymru a aethai ar ddisberod. Cymerai ddiddordeb mawr yn ogystal yng ngharchar Walton ac yr oedd yn arfer ganddi i brynu dillad, esgidiau a bwyd ar gyfer y 'merched amharchus' ac oni bai amdani hi fe fyddai wedi bod yn fyd llwm a diffygiol mewn cydymdeimlad ar y merched hyn.[44] Ar y Sul pregethai yng nghapeli'r Cymry ar gyffiniau Lerpwl: Huyton Quarry, Whiston, Skelmersdale, Earlstown, St Helens Junction, St Helens, Ashton-in-Makerfield, Wigan, Blackburn, Widness, Runcorn, Eldon, Ellesmere Port. Treuliodd gyfnod maith ddeunaw mlynedd ar hugain fel cenhades yn Lerpwl, ac ymddeolodd yn 1950 a hithau bellach yn ddwy a phedwar ugain mlwydd oed.[45]

Gwnaeth Cymro Cymraeg arall gyfraniad gwerthfawr trwy enwad yr Undodiaid, sef Thomas Lloyd Jones ac y mae'r hanes wedi ei gofnodi yn hynod o ddiddorol gan Ann Holt yn ei chyfrol a gyhoeddwyd yn 1936, *A Ministry to*

---

[41] Ceir ymdriniaeth ar gyfraniad Dr Owen Thomas gyda'r gwaith hwn yn D. Ben Rees, *Pregethwr y Bobl: Bywyd a Gwaith Owen Thomas* (Lerpwl a Phontypridd, 1979), 142-173.

[42] D. Ben Rees, 'Cyfraniad Methodistiaid Calfinaidd i Lerpwl i Grefydd a Chymdeithas', yn *Cymry Lerpwl a'u Crefydd* (Lerpwl a Llanddewi Brefi, 1984), 53.

[43] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. 2,* op. cit., 89-90.

[44] Ibid., 90.

[45] Ibid.

the Poor: Being the History of the Liverpool Domestic Mission Society, 1836-1936.[46] Un o Felin-fach yng Ngheredigion ydoedd ef ac fe'i ganwyd ar 17 Mai 1847. Gofalodd am y *Domestic Mission* yn Lerpwl o 1882 hyd ei farwolaeth yn 1917, cyfnod maith eto o 35 mlynedd, a bu ei weinidogaeth ddeinamig yn hynod o bwysig ac yn gyfraniad sylweddol i ardal y Dingle a Toxteth.[47] Dyma dystiolaeth y Parchedig C. Prestwich Scott i'w gyfraniad:

> It was not the Mission as a building of bricks and mortar, nor even the Mission as an institution for which Mr Jones spent his life, it was rather for the boys and girls, men and women who came to the Mission that he devoted himself. He was just as much interested in their games and play in summer, when he was as familiar a figure in the Brunner Pavilion and on the cricket and tennis field in Aigburth and in Mill Street during the winter session... In all these ways Mr Lloyd Jones made the Domestic Mission in Mill Street a true home in the very best sense of that word, for all who entered its doors, from the younger child in the primary department of the Sunday School to the oldest member of the congregation. That was the secret of his success.[48]

Yr wyf wedi rhoddi sylw lawer tro i gyfraniad y Cymry i feddygaeth y ddinas ac y mae'r cyfraniad hwnnw yn haeddu cyfrol ac nid erthygl. Gwyddom oll am gyfraniad unigryw Evan Thomas (1804-84) fel arloesydd meddyg esgyrn a chyfraniad ei fab hynaf, Hugh Owen Thomas (1834-91), a dau o'i frodyr, Evan Thomas yr ieuengaf a fu yn 72 Great Crosshall Street fel meddyg, a Richard Evan Thomas a fu farw yn gynamserol.[49] Erbyn heddiw yr ydym yn gwerthfawrogi cyfraniad y teulu athrylithgar hwn, a hefyd nai Mrs Elizabeth Thomas, gwraig H. O. Thomas, Robert Jones, a ddaeth yn sylfaenydd Ysbyty Gobowen ac yn eilun ei gleifion yn Lerpwl ac yn arbennig y rhai a ddeuai i Ysbyty'r Southern. Edrydd Syr Alfred T. Davies amdano ef a Bob fel y'i galwai ar wyliau yn Norwy pan welsant blentyn o fugail a syrthiasai oddi ar graig yn gorwedd yn ddiymadferth ac mewn poen. Ar amrantiad archwiliodd Robert Jones ef a chanfod bod y bachgen wedi torri ei goes. Nid oedd ganddo ddim wrth law ond cloriau cyfrol. Llwyddodd i wneud sblint o'r rhain ac yna rwymyn o'r dilledyn ar gefn y gadair gerllaw, a setlwyd y goes mewn llai na deg munud. Arbedodd goes y bychan.[50]

---

[46] A. Holt, *A Ministry to the Poor: Being the History of the Liverpool Domestic Mission Society, 1836-1936* (Liverpool, 1936), 76-85.

[47] Ibid., 99-110.

[48] Ibid., pennod 9, 'Sketch of the Character and Ministry of Rev T Lloyd Jones', 111-118. Gweler y dyfyniad ar dudalennau 117-9.

[49] Mae'r hanes yn gyflawn yn H. Hughes-Roberts, *Meddygon Esgyrn Môn* (Lerpwl, 1935).

[50] Ibid., 113.

Ym marn ei gyfoeswyr, Syr Robert Jones oedd y meddyg orthopaedig gorau o welodd y byd mewn unrhyw gyfnod, a chafodd y Cymro hwn ddisgyblion ymhlith y Cymry, fel y Dr Goronwy E. Thomas a'r Athro Robert Owen. Wrth sôn am feddygon y mae'r cyfraniad yn fawr ar ddwy ffrynt, yn gyntaf y meddygon teulu a wasanaethai yn y cymunedau ar hyd a lled y ddinas. Llwyddais i ddod o hyd i 62 ohonynt yn yr ugeinfed ganrif. Yn ail yr arbenigwyr a feddai ar ystafell neu ystafelloedd yn Rodney Street ac a wasanaethai hefyd yn yr ysbytai. Yn fy nghyfnod i yn Lerpwl gwelwyd Cymry'n tyrru i'r Ysbyty Brenhinol i weld arbenigwr y galon, yr eisteddfodwr pybyr Emyr Wyn Jones, neu'r llawfeddyg Howell Hughes, i Ysbyty Broadgreen i weld Edgar Parry, Robert Owen a Wil Lloyd-Jones, neu i Halton i weld John G Williams. Ac o blith meddygon Lerpwl cafwyd un o ddigwyddiadau mawr hanes, sef yn 1953 pan goncrwyd mynydd ucha'r byd am y tro cyntaf. Un o aelodau'r tîm llwyddiannus oedd Charles Evans, llawfeddyg yn Ysbyty Walton cyn iddo ymuno â'r fintai i ddringo Everest. Oherwydd y cysylltiadau agos â Lerpwl, trefnodd Cylch y Pump ar Hugain wrogaeth iddo gan wneud hynny yng nghlwb Prifysgol Lerpwl ar nos Sadwrn 2 Ionawr 1954.[51] Cyflwynwyd y meddyg gan feddyg arall, y Dr Trefor Lloyd Hughes, ac adroddodd y dringwr am ei brofiadau personol o'r antur fawr mewn Cymraeg bob dydd, ac yna diolchwyd iddo gan lawfeddyg orthopaedig, Goronwy Thomas. Yr oedd gorchest Dr Charles Evans yn un na ellid ei churo.

Ac ym myd gorchestion a chyfraniadau Cymry Lerpwl i'r ddinas nodaf ddeg o bersonau nad wyf wedi eu crybwyll hyd yn hyn gan eu bod yn cwmpasu cynifer o feysydd ag agweddau.

1 John Gibson (1791-1866)

Pedair oed oedd John Gibson pan ddaeth o'r Gyffin ger Conwy i Lerpwl ac ni fedrai air o Saesneg yr adeg honno, sef yn 1745.[52] Ymaelododd yn Ysgol Sul Pall Mall ac fel llawer o Gymry eraill daeth o dan ddylanwad William Roscoe a fu wedyn yn noddwr iddo. Yn 1817, symudodd i Lundain a dod i adnabod nifer o brif gerflunwyr Lloegr, ond yr oedd â'i fryd ar Rufain lle y byddai'n treulio bron i hanner can mlynedd. Daeth y Cymro o Lerpwl yn gerflunydd mwyaf nodedig Ewrop a rhoddodd y ddinas iddo'r anrhydedd o gopi cerflun er coffa am Huskinson yn 1844 a phan ddaeth yn ôl i'r ddinas synnwyd y rhai a gyfarfu ag ef ei fod yn gallu siarad Cymraeg dilediaith. Ym mynwent St James (o dan yr Eglwys Gadeiriol) y codwyd cerflun Huskinson, yn yr union fan y cynhaliodd William Llwyd o Licswm y gwasanaeth crefyddol Cymraeg cyntaf yn Lerpwl. Cwynai gwraig fonheddig wrth Gibson un tro fod y cerflunwyr yn gwneud eu delwau yn noethlymun. 'O madam,' meddai John Gibson, 'ein gogoniant yw efelychu y gwaith prydferthaf a greodd Duw, sef dyn; pe rhoddem

[51] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. 2*, op. cit., 85.

[52] Eifionydd, 'John Gibson', *Y Glannau* 3 (1958), 1 a 3.

ddillad amdanynt efelychu y teiliwr a wnaem... Gwnaeth gerflun o George Stephenson a gafodd ei osod yn Neuadd St George's.'

2 Isaac Foulkes (1836-1904)

Cyhoeddwr, argraffwr llyfrau ac awdur yw'r ail yn yr oriel. Daeth i Lerpwl cyn Nadolig 1854 i swyddfa argraffu *Yr Amserau* ac yno sefydlu ei wasg ei hun yn 28 King Street yn 1862, a symud wedyn yn 1870 i 8 Paradise Street.[53] Ysgrifennodd ddau gofiant pwysig yn Gymraeg i J Ceiriog Hughes a Daniel Owen a chychwyn papur newydd o'r enw *Y Cymro*. Ef oedd y golygydd. Foulkes oedd yn gyfrifol hefyd am ddod â'r Eisteddfod Genedlaethol i Lerpwl yn 1884, a brwydrodd yn erbyn llu o anawsterau er mwyn ei chael.

3 Syr Alfred Lewis Jones (1845-1909)

Disgrifiodd David Lloyd ef yn gofiadwy iawn. Dywedodd 'na ellid ei gymharu ond â Môr Iwerydd, dideimlad ac aflonydd'. Roedd ganddo fys mewn llawer potes a gwnaeth ei gwmni, Elder Dempster, yn gwmni pwysig ym myd masnachu gyda Gorllewin Affrig. Dilynwyd ef yn y cwmni gan Gymry da fel David Jones, Waterloo, gŵr o'r Felinheli a Picton Hughes Jones, brodor o Sir Benfro. Alfred Lewis Jones oedd y gŵr a fu'n gyfrifol am boblogeiddio'r banana yn y wlad hon ac yr oedd yn ogystal yn un o sylfaenwyr Ysgol Feddygaeth y Trofannau yn Lerpwl yn 1899. Ceir cofgolofn hardd iddo yn Pier Head, enwyd ysbyty yn Garston ar ei ôl, sef y *Sir Alfred Lewis Jones Memorial Hospital* ac fe godwyd eglwys hardd Springwood gyda'r arian a adawodd i'r Eglwys Anglicanaidd.[54]

4 Enid Wyn Jones (1909-67)

Gwraig ddawnus ac un a fu'n weithgar iawn ym mywyd cymdeithasol, crefyddol a Chymraeg dinas Lerpwl. Cofir am ei chymwynasau yn ardaloedd tlotaf Lerpwl a bu'n arweinydd yn hanes y YWCA, a hefyd Eglwysi Rhyddion Prydain Fawr. Hi oedd Llywydd Merched Eglwysi Rhyddion Prydain yn 1958-59 a chyhoeddwyd ei anerchiad yn bamffledyn, *A Housewife in Search of God.* Bu farw ym mreichiau ei gŵr, Dr Emyr Wyn Jones, mewn awyren ar 15 Medi 1967 ar ei ffordd yn ôl o gynhadledd fyd-eang yr YWCA yn Awstralia.[55]

5 J. C. Roberts (1860-1941)

Dôi'n wreiddiol o Lanuwchllyn, ac er ei anfanteision ym more oes, llwyddodd yn rhyfeddol ym myd busnes yn Lerpwl, gan ddod yn gyfarwyddwr i'r

[53] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. 2*, op. cit., 18.
[54] D. Ben Rees, 'Syr Alfred Lewis Jones', yn *Cwmni Deg Dawnus* (Lerpwl, 2003), 63-77.
[55] E. W. Jones, *Cyfaredd Cof* (Lerpwl, 1970).

Liverpool Rubber Company. Dangosodd garedigrwydd mawr yn y bywyd Cymraeg a Saesneg, a gwasanaethodd fel Uchel Siryf Meirionnydd. Etholwyd ef yn flaenor yng nghapeli Cymraeg Walton Park a Portland Street, Southport.[56]

6 Joseph Parry (1843-1936)

Prif beiriannydd gwaith dŵr Lerpwl. Bu'n gysylltiedig â Chorfforaeth Lerpwl am 57 mlynedd. Ymunodd fel peiriannydd yn 1863 a phan ddechreuwyd ar waith dŵr Llanwddyn yn 1881, rhoddwyd holl gyfrifoldeb Rivington Water Works arno ef. Yn 1894 gwnaed ef yn Brif Beiriannydd Corfforaeth Lerpwl a bu wrth y gwaith hyd ei ymddeoliad terfynol yn 1920. Priododd yn 1875 â Catherine Lloyd (1845-1916) ail ferch y cerddor John Ambrose Lloyd, a bu ganddo ran yn ffurfio'r *Sand Hill Mission* a gwasanaethodd fel Cadeirydd y *Gordon Workingman's Institute*, Stanley Road.[57]

7 Buddug Anwylini Pugh (1845-1939)

Merch ydoedd i'r meddyg John Pugh (1815-74) a'i briod Catherine, a bu un o'r meibion, Dr Taliesin William Owen Pugh, yn llafurio yn Lerpwl hyd ei farw yn 1893. Gwnaeth Buddug A. Pugh ei chartref yn Lerpwl a dod yn adnabyddus fel arlunydd. Fel ei thad ymfalchïai yn ei chysylltiad ag Aberdyfi, a bu hi farw yn Lerpwl ar 2 Mawrth 1939 yn 83 mlwydd oed.[58]

8 John Morris (1849-1950)

Un o wŷr dylanwadol Lerpwl oedd John Morris, 16 Bentley Street, a chofir amdano ym myd y gyfraith fel Ynad Heddwch. Cofiai agor capel hardd Princes Road ar nos Fercher, 11 Mawrth 1868, a chofiai Dr Owen Thomas yn dod yn weinidog yno yn 1871 ac yr oedd yn dyst o'r uniad rhwng eglwysi Princes Road, Chatham Street a Belvedere Road i greu Eglwys y Drindod ym mlwyddyn ei farw yn 1950 yn 101 oed. Yr adeg honno teimlai ef fod yr arweiniad hwn o uno'r eglwysi yn un doeth.[59]

9 Y Parchedig John Owen Williams (Pedrog) (1853-1932)

Symudodd o Gaer i Lerpwl yn 1876 ac am wyth mlynedd bu'n gweithio ym masnachdy William Williams, Button Street. Yn 1881 ymaelododd gyda'r Annibynwyr yn eglwys Kensington, Lerpwl, a thair blynedd yn ddiweddarach ordeiniwyd ef yn weinidog yr eglwys honno a bu yno am 46 mlynedd. Ef a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl yn 1900 ac y mae'r gadair

[56] J. H. Morris, 'Y Diweddar Mr J. C. Roberts', *Y Cenhadwr* 20 (1941), 186; D. Ben Rees, 'J. C. Roberts (1860-1941)', yn *Llestri Gras a Gobaith* (Lerpwl, 2001), 171.

[57] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. 2*, op. cit., 39.

[58] Ibid., 63.

[59] Ibid., 80.

honno erbyn hyn yn Neuadd y Dref. Ysgrifennodd lawer i'r wasg yn Lerpwl a phan ddaeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Lerpwl yn 1929 ef oedd yr Archdderwydd.[60] Cafodd ddwy dysteb genedlaethol, un yn 1917 yn Lerpwl, ac un yn Llundain yn 1930 mewn cyfarfod a drefnwyd gan Gymdeithas y Cymrodorion. Pan fu farw 9 Gorffennaf 1932 ysgrifennodd Esgob Anglicaniaid Lerpwl deyrnged hyfryd iddo, a dywed y gwir: 'He will keep an honoured place in the memories of many in Liverpool who do not belong to his Church but recognise gratefully his service to the Universal Church'.[61]

10 Hugh Evans (1854-1934)

Cyhoeddwr ac awdur a Chymro a ddaeth i Lerpwl o ardal Uwchaled yn 1875 ac a fu'n gweithio ar y capel yn Stanley Road a ddaeth yn ddinas noddfa iddo ar hyd y blynyddoedd. Trodd at fusnes papurau ac yn 1897 sefydlodd wasg gyhoeddi mewn partneriaeth ag Arthur, mab Isaac Foulkes. O hynny ymlaen hyd ei farwolaeth yn 1934 cyhoeddodd dros dri chant o lyfrau yn Gymraeg a Saesneg ac yn 1906 rhoes gychwyn i'r *Brython* a ddaeth yn newyddiadur safonol i Gymry Lerpwl ac i Gymru gyfan.[62] Ef ydoedd awdur *Cwm Eithin* a gyhoeddiwyd yn 1931 ac a gyfieithwyd i'r Saesneg gan E. Morgan Humphreys o dan y teitl *Gorse Glen*.[63] O 1906 ymlaen aeth ar ei liwt ei hun a chafodd gymorth dau o'i feibion, Meirion a Howell Evans. Cyhoeddodd gylchgrawn pwysig *Y Beirniad* o 1911 hyd 1918, ac o 1938 hyd 1959 y wasg hon oedd yn argraffu bob blwyddyn *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* yr Eisteddfod Genedlaethol.

11 Ann Hughes (1847-1930)

Un o Lanfihangel-ar-Arth oedd Ann Hughes, ac fe ddaeth i chwilio am waith i'r ddinas, a dod o hyd i siop yn Brunswick Road a oedd yn barod i'w chyflogi.[64] Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach cafodd gynnig siop gan berthynas iddi yn Great Howard Street a phan briododd â James Hughes o Gerrigydrudion symudodd y ddau i Old-Hall Street. Magodd bump o blant a rhoddwyd esiampl i bob un ohonynt. Agorodd T. J. Hughes ei stordy mawr yn London Road yn 1912, ei merch Mrs W. Hughes yn agor siop Babyland yn County Road yn 1916 a'r ferch arall Winifred ynghyd â'i gŵr Fred Hughes hwythau yn agor siop yn Stanley Road yn 1925. Prynodd siopau yn Walton, 11 a 13 County Road, yn

---

[60] D. Ben Rees, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau, cyf. I*, op. cit., 24-5.

[61] E. Williams, 'Cofio Pedrog', *Yr Angor* 8.10 (1987), 5.

[62] Rhydd yr hanesydd Dr R. Merfyn Jones deyrnged arbennig i Hugh Evans. Dywed am ei glasur *Cwm Eithin*: 'Er manyled a chywired y deunydd, gwaith ydyw o idioleg bur, a chais gyda'r perffeithiaf i ddiffinio ac egluro hanfod y gymdeithas Gymreig eu hun.' Gw. R. Merfyn Jones, 'Cymry Lerpwl', yn *Cymry Lerpwl a'u Crefydd*, op. cit., 31-2.

[63] H. Evans, *Cwm Eithin* (Lerpwl, 1931); troswyd i'r Saesneg gan E. M. Humphreys wrth y teitl, *Gorse Glen* (Liverpool, 1948).

[64] 'Pioneer in Drapery Trade', *Liverpool Echo*, 3 April 1930, 5.

1887 ac ar ôl marwolaeth ei phriod yn 1922, fe unodd dau o'i meibion, Hugh a James, yn y fusnes lewyrchus. Gweithiai llawer o Gymry Walton ac Anfield yn y siopau hyn. Nid anghofiodd bro ei mebyd a bu'n hynod o ffyddlon i gapel Anfield Road. Y mae iddi le arbennig iawn, hi a'i theulu, yn hanes dinas Lerpwl.

12 Owen Elias Roberts (1908-2000)

Daeth O. E. Roberts yn ŵr ifanc i Lerpwl a bu'n weithgar iawn yn y ddinas. Ef oedd Prif Dechnegydd Meddygol yn Labordai Ysbytai Lerpwl o 1926 hyd 1972. Enillodd y Fedal Ryddiaith ddwywaith, yn Aberystwyth yn 1952 ac Ystradgynlais yn 1954, a bu'n fawr iawn ei gyfraniad i'r cylchgronau, *Y Glannau* a'r *Bont*, ac fel arloesydd ysgrifennu ar wyddoniaeth yn Gymraeg.[65]

Y mae'r deuddeg a nodais yn cynrychioli ugeiniau lawer o Gymry a fu'n gaffaeliad mawr i ddinas Lerpwl. Dathlwn eu cyfraniad. Credaf mai'r ganmoliaeth orau a dderbyniodd y Cymry ydyw'r hyn a ysgrifennodd yr hanesydd a'r pensaer Syr James Picton yn 1875 wrth sôn am Everton:

> 'A large part of the population is from the principality. Chapels in which the service is conducted in the Cymric tongue abound. Placards in the Welsh language may be seen on the Wales and Welsh newspapers in the shop windows... On the whole they are an industrious, steady, sober race. Everton is now principally inhabited by the working classes and it may be said to their honour that there is no part of the town more orderly, more free from beggary and squalid poverty than this district'.[66]

Ni ellir dweud yn amgenach.

The Reverend D. Ben Rees's article explores the contribution of the Welsh to the city of Liverpool over eight centuries of the city's history. The long history of Brythonic, and later Welsh, settlement, is evident in the surrounding placenames of Welsh origin but the influence of Welsh people on the city of Liverpool properly begins with Dafydd ap Gruffydd, who collected taxes for Henry VII. From the sixteenth century to the present D. Ben Rees lists dozens of Welsh people whose careers have been shaped by Liverpool and who have contributed to the development and growth of the port and city which celebrated its eight hundredth anniversary in 2007.

---

[65] J. E. Jones, *Bywgraffiadur Cylch y Pump ar Hugain 1932-1993* (Lerpwl, 1993), 14.

[66] J. A. Picton, *Memorials of Liverpool, Volume II* (London and Liverpool, 1875), 353.